

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

Ebst / email: llasantffraed@hotmail.com

COFNODION HEB EU CADARNHAU

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar nos Fawrth, 3 o Fawrth 2015 yn yr Ystafell Ddarllen, Llanon.

Yn bresennol

Cadeirydd: Cyng B Tomlins

Cynghorwyr G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis L Lloyd, D Morgan, I Reed a'r Cynghorydd Sir Dafydd Edwards.

Dechreuodd y cyfarfod am 8.00 y.h.

1. Ymddiheuriadau / Materion Personol / Datgelu Buddianau Personol.

Dim

2. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 3 Mawrth 2015.

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion.

3.1 Taflunydd

Fe gadarnhaodd y Cynghorydd Lewis fod yna daflunydd ar gael i'w fenthyg gan y Cyngor a chytunwyd ei dreialu yn y cyfarfod nesaf.

3.2 Gordyfiant Rose Mount

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Edwards fod angen cymryd camau i docio rhan uchaf y clawdd a oedd yn effeithio xxx wrth y gyffordd, yn enwedig i fysus, ac y byddai'n dilyn hwn i fyny.

3.3 Mainc

Roedd angen dangos manylion y fainc o blastig a ailgylchwyd, ac a gytunwyd yn y cyfarfod diwthaf ar gost o £465, + TAW i'r fferm ar gyfer eu sylwadau/cytundeb.

3.4 Llwybr Troed tu cefn i Gaeau Albion

Fe gadarnhaodd y Cynghorydd Morgan ei fod wedi archwilio'r llwybr troed y diwrnod blaenorol a'i fod nawr yn edrych

UNCONFIRMED MINUTES

A meeting of the Council was held on Tuesday, 7 April 2015 at the Reading Room, Llanon.

Present

Chairman: Cllr B Tomlins

Councillors G Colledge, H Hayfield, J Hughes, M James, M Lawton, G Lewis L Lloyd, D Morgan, I Reed and County Councillor Dafydd Edwards.

The meeting commenced at 8.00 p.m

1. Apologies / Personal Matters / Disclosure of Personal Interests.
None.

2. To confirm the Minutes of 3 March 2015 Meeting.

The Minutes were confirmed as being correct.

3. Matters arising from the Minutes.

3.1 Projector

Councillor Gerallt Lewis confirmed that a projector was available to be loaned to the Council and it was agreed to trial its use at the next meeting.

3.2 Rose Mount Overgrowth

County Councillor Dafydd Edwards reported that action needed to be taken to cut back the top part of the hedge which affected visibility at the junction, especially for buses, and that he would follow this up.

3.3 Bench

Details of the new recycled plastic bench agreed at the last meeting, costing £465 + VAT needed to be shown to Maes Gwyn farm for comments/agreement.

3.4 Footpath at rear of Albion Fields

Councillor Morgan confirmed that he had inspected the footpath the day before and that it now looked in good condition.

mewn cyflwr da.

3.5 Clirio Llwybrau Troed
PENDERFYNWYD bwrw 'mlaen i gael prisiau ar gyfer torri porfa/clirio llwybrau troed yn 2015.

3.6 Deffibrilwyr
Dwedodd y Clerc ei fod wedi derbyn swm o £1215 cyn y cyfarfod gan Gadeirydd Pwyllgor Deffbriliwr Llanon a fyddai'n cael ei dalu i fewn i gyfrif banc y Cyngor Cymuned, fel y cytunwyd eisoes, ac yn cael ei glustnodi at bwrpas prynu a chynnal a chadw deffibrilwyr ac offer cysylltiedig at ddefnydd y gymuned. Ynghyd â'r cyfraniad o £500 a gytunwyd eisoes gan y Cyngor at y pwrpas hyn, roedd yna £1715 yn y gronfa erbyn hyn. Disgwylwyd rhagor o symiau yn fuan, fel a amlinellwyd yn y cyfarfod.

Dwedodd y Cyngorydd Gerallt Lewis fod angen talu dwy anfoneb, sef:

- £1500 i *Calonnau Cymru* ar gyfer 3 deffibriliwr;a
- £942 (yn cynnwys TAW) i Mr J R Evans ar gyfer tri cabinet i ddal y diffibrilwyr.

PENDERFYNWYD talu'r ddwy anfoneb, gan ddefnyddio'r arian a dderbyniwyd eisoes, cyn derbyn gweddill y symiau a ddisgwylid, ac i ofyn i'r Clerc gyflwyno diweddariadau rheolaidd ar falans yr arian a ddarperir yn y cyfrifon at y pwrpas hwn.

3.7 Stordy
PENDERFYNWYD bwrw 'mlaen gyda'r cais am grant ac i wneud cais am ganiatât o dan y Rheoliadau Adeiladu.

3.8 Cyrtiau Tennis
PENDERFYNWYD:
a) derbyn y pris a gynigiwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer lladd chwyn yn y swm o £65 + TAW
b) bwrw 'mlaen gyda'r cais am grant.

4. Eiddo
(a) Adroddiad yr Arolygiad
Ni wnaed archwiliadau ym Mis Mawrth. Fe fyddai'r Cyngorydd Lawton yn gwneud yr archwiliadau yn Ebrill.

3.5 Footpath clearing
It was RESOLVED to proceed to seek quotes for grass cutting/footpath trashing in 2015.

3.6 Defibrillators
The Clerk advised that he had received a sum of £1215 prior to the meeting from the Chairman of the Llanon Defibrillator Committee which would be paid into the Community Council bank account, as previously agreed, and ring-fenced for the purpose of acquiring and maintaining defibrillators and ancillary equipment for the use of the community. Together with the £500 contribution already approved by the Council for this purpose, the fund now stood at £1715. Further sums, as outlined at the meeting, were awaited shortly.

Councillor Gerallt Lewis advised that two invoices needed to be paid, namely:

- £1500 to *Calonnau Cymru* for 3 defibrillators; and
- £942 (inc. VAT) to Mr J R Evans for three cabinets to house the defibrillators.

It was RESOLVED to pay both invoices, utilising the sum already received, prior to the receipt of the further sums awaited, and to request the Clerk to present update reports on the balance of the funds provided in the accounts for this purpose on a regular basis.

3.7 Storage Shed
It was RESOLVED to proceed with the grant application and to submit the application for approval under the Building Regulations.

3.8 Tennis Courts
It was RESOLVED:
a) to accept the price received from Ceredigion County Council for weed killing in the sum of £65 + VAT
b) to proceed with the grant application.

4. Property
(a) Inspection Report
No inspections had been undertaken in March. Councillor Lawton would be undertaking the inspections in April.

(b) Llwybr Troed ger Llwynteg
Fe fyddai'r darn o'r llwybr lle mae grweiddyn coeden wedi dod i'r wyneb yn cael ei archwilio gan y Cynghorwyr James a Morgan.

(c) Rhoi Gwyneb Newydd i'r Llwybr Troed ger y Caeau Chwarae
Cytunwyd gofyn i'r Cynghorydd Morgan ddilyn i fyny'r posibilrwydd o drefnu fod siâl ychwanegol yn cael ei osod ar y llwybr troed.

5. Cyllid

(a) PENDERFYNWYD talu'r canlynol:
- £167.76 i Gymdeithas Neuadd a Meysydd Chwarae Llanon parthed cyfraniad y Cyngor i'r gost o dorri porfa yng nghae'r gymuned yn 2014
- £25 i'r Cynghorydd Tomlins parthed y taliad a wnaed ganddo e far gyfer y gost o chlirio a brwsio'r cyrtiau tenis gan gontractwr.

(b) Adroddodd y Clerc fod gwybodaeth wedi'i dderbyn gan Gyngor Sir Ceredigion o'r faint a ailgylchwyd yn ystod 3ydd Chwarter 2014-15 ac I baratoi anfoneb ar gyfer hawlio'r swm sy'n ddyledus o dan y cynllun 'Ailgylchu yn y Banc'.

6. Ymgynghoriadau a Materion Cynllunio

(a) Derbyniwyd hysbysiad gan Gyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Cynllunio lleol, fod cais cynllunio A150027 wedi'i gymeradwyo, yn ôl amodau.

(b) Rhoddwyd y canlynol yn y waled ar gyfer ei ddsbarthu i Aelodau:
Agenda Cyfarfod Ebrill o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

8. Gohebiaeth

(a) Cytunwyd dosbarthu'r canlynol ymhlith yr Aelodau:
- Diwrnod Galw Mewn Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddydd Mercher 29ain o Ebrill rhwng 2-7 pm yn Neuadd Bentref

(b) Footpath near Llwynteg
An area of the footpath where a tree root was protruding would be inspected by Councillors James and Morgan.

(c) Resurfacing of footpath at Playing Fields Car Park
It was agreed to request Councillor Morgan to pursue the possibility of arranging for the depositing of additional shale at the footpath.

5. Finance

(a) It was RESOLVED to pay the following:
- £167.76, to the Llanon Village Hall and Playing Fields Association in respect of the Council's contribution for the cost of grass cutting at the community field in 2014
- £25 to Councillor Tomlins in respect of the payment made by him for the cost of clearing and sweeping the tennis courts by a contractor.

(b) The Clerk reported that notification had been received from Ceredigion County Council of the amount recycled during the 3rd quarter of 2014-15 and that an invoice be prepared to claim the sum due to the Council under the 'Recycle in the Bank' scheme.

6. Consultation and Planning Matters

(a) Notification had been received from Ceredigion County Council, as the Local Planning Authority, that Application A150027 had been approved subject to conditions.

(b) The following was deposited in the wallet for circulation to Members:
Development Control Committee Agenda for the April Meeting.

8. Correspondence

(a) It was agreed that the following be circulated to Members:
- Natural Resources Wales drop-in day on Wednesday 29th April, 2-7 pm, at Llwynceilyn Village Hall in

llwyncelyn parthed cynigion ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Amddiffyn Arbennig
- Cynllun Strategol 2015-2020 a Chynllun Gwella 2015-16 Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

respect of proposals for Special Areas of Conservation (SACs) and Special Protection Areas (SPAs)
- the Mid and West Wales Fire and Rescue Service Five Year Strategic Plan for 2015-2020 and Annual Improvement Plan for 2015-2016.

- | | |
|---|---|
| <p>(b) Materion yn ymwneud â chefnffordd yr A487
Nodwyd y byddai gwaith yn dechrau ar y ffordd yn Llanon yn fuan.</p> <p>7. Unrhyw Fater Arall</p> <p>7.1 Cŵn yn Baeddu
Adroddodd y Clerc fod e-bost wedi'i dderbyn oddi wrth drigolydd yn cyfeirio at gŵn yn baeddu llwybrau troed yn y gymuned a chytunwyd rhoi cyngor taw'r ffordd mwyaf effeithiol o ddelio gyda'r mater yw ei fod yn cael ei ddwyn i sylw'r Cyngor Sir, gyda thystiolaeth i gefnogi erlyniad posibl.</p> <p>7.2 Bu yna drafodaeth cyffredinol ar arwyddion yn cael eu gosod ar balmentydd gan fusnesau lleol.</p> <p>7.3 Dwedodd y Cynghorydd Hayfield y byddai'n gwneud datganiad personol ar ddechrau'r cyfarfod nesaf.</p> <p>8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – Cyfarfod Blynyddol a'r Cyfarfod Misol
Nos Fawrth 5 Mai 2015.</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 y.h.</p> | <p>(b) A487 Trunk Road Matters</p> <p>It was noted that resurfacing work was due to commence soon at Llanon.</p> <p>7. Any Other Business</p> <p>7.1 Dog Fouling
The Clerk reported an e-mail received from a resident concerning dog fouling on footpaths within the community and it was agreed to advise him that the most effective way of dealing with the matter would be to report any incident to the County Council, with evidence to support a possible prosecution.</p> <p>7.2 A general discussion took place on signs placed on pavements by local businesses.</p> <p>7.3 Councillor Hayfield indicated that he would be making a personal announcement at the commencement of the next meeting.</p> <p>8. Date of Next Meeting – Annual Meeting and Monthly Meeting
Tuesday 5 May 2015.</p> <p>The meeting concluded at 9.20 p.m.</p> |
|---|---|